Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Tachwedd 14, 2017 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, John Hughes, Llinos Williams, Gareth Ellis, Gethin Williams. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Carwyn Evans, Paul Williams.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.a.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 10, 2017

Wedi cywiro 'SAL' yn Eitem 3 i ddarllen 'SAC', cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 10, 2017

Eitem 8.g. Llythyr (16/10/2017) oddi wrth Janet Edwards yn rhoi gwybod y sefydliadau sy'n defnyddio Neuadd Bentref Bontddu.

Tai chi (Celia Brown), Line dancing (Jim Edwards, Blue Gardens, Bontddu), Treherne Care, Yoga.

Mae Paul Williams ar Bwyllgor y Neuadd (Hwyrach bydd yn fodlon bod ein cynrychiolydd ar Bwyllgor y Neuadd)

5. Materion Ariannol

a. Bil (19/10/2017) am £62.10 oddi wrth Elfed ap Gomer at gostau teithio i gynrychioli'r Cyngor yng Nghynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru 2017.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Bil (23/10/2017) am £1,450.00 oddi wrth Mr A.M. Ashton am y gwaith gwnaethpwyd:
Y Fynwent: tocio gwrych, torri gwair (Mehefin, Awst a Hydref), chwistrellu llwybrau efo chwyn laddwr,
Llochesau bws: glanhau, a chlirio coed a gwair.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Balans yn y banc ar 29 Hydref 2017: £10,600.87.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Llythyr (16/10/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod y bwriad ni fydd taliadau claddu ar gyfer plant hyd at 18 oed yng nghymunedau Cymru oherwydd amrywiaeth tal sy'n cael ei godi. Os bydd cytundeb i'r bwriad, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau swm priodol at gael fel cydnabyddiaeth. Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwybod y cynghorau cymuned/tref sy'n gweithredu mynwentydd. Amgáu mae ffurflen i'w gwblhau.

Penderfynwyd cwblhau'r ffurflen yn rhoi gwybod mae taliadau claddu ar gyfer plant hyd at 18 oed, ac rydym yn fodlon gwneud i ffwrdd â'r taliadau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cais cynllunio NP5/65/235C. Codi adeilad penty blaen agored ar adeilad ffrâm ddur presennol a chais rhannol ôl-weithredol ar gyfer codi decin pren sydd wedi ei rannol godi. Borth Fram, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (9/10/2017) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Mae adroddiad draft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol 2018-19 ar gael ar wefan http://gov.wales/irpwsub/home/publication-reports/financial-year-2018-19?skip=1&lang=cy Mae Adran 13 yn ymwneud â chynghorau tref a chymuned yn benodol. Dyddiad cau yw 29/11/2017.

b. Llythyr (17/10/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi cyhoeddi Adroddiad Cynigion Diwygiedig Arolwg 2018 ar gyfer newidiadau i etholaethau Seneddol yng Nghymru. Mae'r wybodaeth ar wefan www.cffg2018.org.uk

c. Llythyr (24/10/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae dyddiad Pwyllgor Ardal Meirionnydd wedi newid i ddydd Mawrth, Tachwedd 28.

Yn absenoldeb Elfed ap Gomer mi fydd Gareth Ellis yn mynychu'r cyfarfod.

ch. Llythyr (24/10/2017) oddi wrth Ysgrifennydd Neuadd Bentref Llanelltyd yn rhoi gwybod mae angen rhoi sylw i'r 2 hysbysfwrdd yn Llanelltyd oherwydd eu cyflwr.

Penderfynwyd ymchwilio eu cyflwr.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Gyda'r newyddion cafwyd gan Llywodraeth Cymru am roi llai o arian i gynghhorau sir, mae'n debygol bydd Cyngor Gwynedd yn torri lawr eto ar y gwasanaethau maent yn eu rhoi.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd:

1. Mae angen sgubo'r dail sydd ar ffordd Taicynhaeaf a llenwi tyllau sydd ar y ffordd yn enwedig twll wrth Nant y Garreg.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Gwastraff a Chomisiynu, Cyngor Gwynedd:

1. Mae angen clirio gwastraff sydd yn y gilfach barcio ychydig allan o Lanelltyd ar y ffordd A470.

2. Mae angen clirio gwastraff sydd wrth loches fysus sydd wrth gyffordd y ffordd A496 i Neuadd Bentref Llanelltyd. Mae angen bin gwastraff yn y lleoliad hyn.

c. Mae Peredur Jenkins am wneud ymoliadau beth yw diweddaraf gyda chynlluniau adeiladu Ysgol Llanelltyd.

d. . Penderfynwyd rhoi gwybod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mae gwaith amheus yn cael ei wneud ar dir ochr isaf i fynedfa Hafod Fach, Llanelltyd, Post Cod LL40 2HB.